COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED Y BORTH A GYNHALIWYD O BELL DROS ZOOM

NOS FAWRTH, 8 CHWEFROR 2022 AM 19.00AWR

Presennol: Cadeirydd: H Hughes
R Dalton
G B Jones
A J Morris
D Pryce Jones A Thomas
D Tweedy
Yn bresennol: Cynghorydd Sir: R P Quant
Clerc: M Walker
3 aelod o'r cyhoedd.

**YMDDIHEURIADAU**

295. Y Cynghorwyr C Bainbridge, M Griffiths a J James.

**CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

296. Dim.

**DATGAN BUDDIANNAU**

297. Atgoffwyd y Cynghorwyr i ddatgan buddiant dan unrhyw faterion perthnasol a allai godi yn ystod y cyfarfod.

**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**

298. Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd o bell ar y 10fed o Ionawr. Y cynigydd oedd y Cyng. Dalton a'r eilydd oedd y Cyng. Pryce Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

**MATERION YN CODI**

299. Dim.

**GOHEBIAETH**

300. Anfonwyd pob darn o ohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion at bob aelod cyn y cyfarfod. Ni chododd yr aelodau ddim materion ynglŷn â'r ohebiaeth. Daeth gohebiaeth arall i law nad oedd angen gweithredu arni oddi wrth Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Trefi Smart, Ecodyfi, Cronfa Bensiwn Dyfed, copi o Gynllun yr Heddlu a Throseddu 2021-2025, Clerk & Councils Direct, catalog Cyfarpar Awyr Agored NBB a chylchgrawn Chwarae dros Gymru.

301. BroAber360. Mae cais am grant loteri ar y gweill ac mae'r sefydliad yn gofyn i'r Cyngor gefnogi parhad a datblygiad BroAber360 ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

302. Parc Gwyliau Brynowen. Cydnabyddiaeth gan Barc Brynowen yn sgil pryderon gan breswylydd cyfagos am y gwaith adeiladu yno a'r goblygiadau posibl i'r rhwydwaith draenio a'r risg o lifogydd yn yr ardal. Mae llythyr dilynol yn cadarnhau bod Cyngor Sir Ceredigion wedi rhoi cyfarwyddyd i Frynowen i "roi'r gorau i'r holl waith ar y safle ar unwaith”.

303. Hwb Cymunedol y Borth. Gwahoddiad i seremoni dadorchuddio eu murlun newydd ar ddydd Sadwrn, y 12fed o Chwefror.

304. Eglwys Sant Matthew. Llythyr sy'n diolch i'r Cyngor am ei gyfraniad ariannol tuag at floc toiledau newydd i bobl anabl.

305. Yswiriant y Cyngor. Ar ôl anfon e-bost at y cwmni yswiriant, cafwyd cadarnhad nad yw Cyngor y Borth wedi’i yswirio am y difrod i'r meini copa ar y wal gyferbyn â Siop Premier. Mae'r Cadeirydd wedi trefnu cyfarfod i adolygu polisi yswiriant y Cyngor.

306. Mygiau Coffa Jiwbilî Platinwm y Frenhines. Mygiau casgladwy i nodi'r jiwbilî. Ar ôl trafodaeth fer, cytunodd yr aelodau i brynu 2 focs o fygiau (cyfanswm o 72 mwg) ar gost o £527.23 gan gynnwys TAW a chost pecynnu a phostio. Bydd pob plentyn o dan 11 oed sy'n byw yn y pentref yn derbyn mwg. Mae'r Cynghorydd Bainbridge, yn ei habsenoldeb, wedi gwirfoddoli i drefnu bod y mygiau hyn yn cael eu dosbarthu gyda chymorth y Cynghorydd Thomas. O ran trefnu

digwyddiadau eraill sy'n gysylltiedig â'r jiwbilî, cytunwyd i aros i Bwyllgor y Carnifal gynnal ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol i weld a oedd oedden nhw'n bwriadu cynnal unrhyw ddigwyddiadau.

307. Y bwriad i godi Uned Ddofednod Ddwys ger Talybont. E-bost sy'n mynegi pryder ynghylch y datblygiad arfaethedig. Cytunwyd na ddylai Cyngor Cymuned y Borth wneud sylw ynghylch y cais cynllunio gan nad yw'n ymgynghorai.

308. Lle Gwag ar y Cyngor. Cadarnhaodd y Clerc fod hysbysiadau i lenwi'r lle gwag ar y Cyngor wedi'u gosod ar yr hysbysfyrddau, ar wefan wybodaeth gymunedol y Borth ac ar dudalen Facebook y Cyngor.

309. Ysgol Craig yr Wylfa. Cais am gymorth ariannol er mwyn cynnal y ddarpariaeth bresennol ac er mwyn cynllunio gweithgareddau y bydd y plant yn eu mwynhau ac a fydd helpu iddynt ddatblygu. Cynigiodd y Cynghorydd Jones fod y Cyngor yn talu £2000 ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Pryce Jones. Penderfynwyd cynnwys y swm hwn yng nghyllideb 2021/2022. Pleidleisiodd yr aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

310. Biniau Sbwriel. Llythyr oddi wrth breswylydd lleol sy'n gofyn am ragor o finiau sbwriel gan Gyngor Sir Ceredigion, a chopi o ateb y Cyngor i'r cais hwnnw. Gofynnwyd i'r Clerc ymateb gan ddweud bod y sylwadau a'r pryderon wedi'u nodi ac y byddai Cyngor Cymuned y Borth yn monitro'r sefyllfa.

311. Cais am Rodd Ariannol Ambiwlans Awyr Cymru. Bydd pob cais am gyllid yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth.

## CYFRIFON

312. Gweddill y Cyfrifon ar y 14eg o Ionawr 2022

| | |
|---|---|
| Nationwide | 30229.71 |
| Cyfrif Banc Elusennol | 500.94 |
| Cyfrif Busnes Dim Rhybudd | 17560.94 |
| Cyfrif Adnau | 3749.37 |

313. Incwm

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion – Grant am y Maes Chwarae | 10000.00 |
| Rhent am y tir ger Ger-y-don | 100.00 |

314. Gwariant – Penderfynodd yr aelodau dalu'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Tâl misol am y Cyfrif Banc Elusennol | 6.60 |
| Forestry Services Ltd – Coeden Nadolig | 180.00 |
| Ysgol Craig yr Wylfa | 2000.00 |
| M Walker – cyflog £522.20, costau swyddfa £9.99 | 532.19 |
| Heledd Davies – cyfieithu cofnodion mis Ionawr | 121.95 |
| R W Jones – Torchau Sul y Cofio | 71.0 |

Y cynigydd oedd y Cyng. Bainbridge a'r eilydd oedd y Cyng. Dalton. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

## CYNLLUNIO

315. Cais am Ganiatâd Cynllunio Llawn.
Nid oedd dim ceisiadau cynllunio i'w trafod.

## AMDDIFFYN YR ARFORDIR A LLIFOGYDD

316. Anfonwyd e-bost oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion a oedd yn ymateb i'r llythyr ynghylch effaith Storm Barra ar yr amddiffynfeydd arfordirol ac ar gymuned y Borth at bob cynghorydd cyn y cyfarfod. Trafododd y Cyngor yr ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion a chodwyd pryderon. Cynigiwyd bod y Cynghorwyr Hughes a Morris yn anfon llythyr at Gyngor Sir Ceredigion yn gofyn iddo gyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith o fonitro'r banc cerrig mân bob blwyddyn, a bod y Cyngor Sir yn dyrannu cyllid bob blwyddyn yn benodol ar gyfer y Borth er mwyn cynnal a chadw'r amddiffynfeydd. Esboniodd y Cynghorydd Quant mai Canolfan Monitro Arfordirol Cymru sy'n gyfrifol am fonitro'r banc cerrig mân bob blwyddyn, ac nad oedd gan y Cyngor Sir lawer o arian i gynnal a chadw amddiffynfeydd ar hyd arfordir Ceredigion gyfan.

**CYFARFODYDD WYNEB YN WYNEB**

317. Mae'r Clerc wedi gofyn am gyngor oddi wrth Un Llais Cymru ynglŷn â chyfleusterau cyfieithu pan fydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ailddechrau. Y cyfarwyddyd yw mai penderfyniad i'r Cyngor fyddai hyn, ond rhaid iddo ddarparu cofnodion dwyieithog yn dilyn pob cyfarfod. Rhannodd y Cynghorydd Quant y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chyfyngiadau COVID-19 yng ngoleuni'r ffaith bod bellach modd defnyddio'r ystafelloedd i fyny'r grisiau yn y neuadd gymunedol.

**ARWYDDION AR Y PROMENÂD**

318. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi archebu dwy faner newydd. Soniodd y Clerc hefyd fod pryderon mawr ynglŷn â baw cŵn ar y palmentydd yn y Borth. Dywedodd aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod iddi gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn a fyddai'n gallu darparu stensiliau i greu arwyddion sy'n gofyn i berchnogion cŵn lanhau ar ôl eu cŵn. Byddai'r rhain yn cael eu defnyddio i baentio ar balmentydd er mwyn i berchnogion cŵn gofio godi baw eu cŵn.

**YR OLYGFAN AR FFORDD CLARACH**

319. Mae'r mater yn parhau.

**MATERION Y CADEIRYDD**

320. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau ei fod wedi trefnu cyfarfod yn y neuadd gymunedol ar yr 11eg o Chwefror i adolygu polisi yswiriant y Cyngor. Bydd unrhyw ganfyddiadau neu newidiadau yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth.

**CYFRIFOLDEBAU'R CYNGHORWYR**

321. Dywedodd y Cynghorydd Dalton fod angen mynd i'r afael â'r difrod i'r wal gyferbyn â Siop Premier yn dilyn Storm Barra cyn i'r ymwelwyr gyrraedd. Dywedodd y Cynghorydd Quant y byddai'n gofyn i bensaer Cyngor Sir Ceredigion fwrw golwg ar y wal.
Dywedodd y Cynghorydd Tweedy wrth yr aelodau ei fod wedi bod yn paentio murlun yng Nghanolfan Ymwelwyr Ynyslas.
Dywedodd y Cynghorydd Pryce Jones fod y biniau'n orlawn yn y maes parcio gyferbyn â Brynowen. Gofynnodd y Cynghorydd Quant am farn pobl ynglŷn â'r parthau diogel ger y fferyllfa. Penderfynwyd nad oeddent yn cyflawni dim diben ar hyn o bryd. Felly, bydd y Cynghorydd Quant yn gofyn iddynt gael eu dirwyn i ben.
Yn sgil llawer o e-byst, cydnabu'r Cynghorydd Morris fod y Cynghorydd Quant yn dal i gyfathrebu â Cyngor Sir Ceredigion er mwyn ceisio clirio'r ddyfrfford ar y ffordd sy'n arwain tuag at y Sŵ.
Gofynnodd y Cynghorydd Thomas a oedd bwriad clirio'r draeniau ar hyd y stryd fawr. Cadarnhawyd bod y gwaith o glirio'r draeniau a gosod draeniad newydd sy'n arwain o'r bloc toiledau ym mhen gogleddol y pentref tuag at yr hostel ieuenctid wedi dechrau.

**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

322. Dywedodd y Cynghorydd Quant fod Cyngor Sir Ceredigion yn aros am rannau ar gyfer y goleuadau sydd wedi torri ar y clogwyn. Cafwyd diweddariad byr hefyd ynglŷn â'r sefyllfa COVID-19.

**Y CYFARFOD NESAF A'R MATERION I'W CYNNWYS AR YR AGENDA**

323. Gan nad oedd rhagor o faterion i'w trafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 9.00pm. Ymhlith yr eitemau ar agenda'r cyfarfod nesaf a gynhelir nos Lun, y 7fed o Fawrth 2022 fydd diweddariad gan Broadway Partners ynglŷn â chyflwyno Band Eang fesul tipyn, Amddiffyn yr Arfordir a Llifogydd, Arwyddion ar y Prom, y Cyfarfod i Adolygu Polisi Yswiriant y Cyngor, Lle Gwag ar y Cyngor, y Wal gyferbyn â Siop Premier, Ceisiadau am Roddion Ariannol, diweddariad ynglŷn â Borth 2030 a chyfarfodydd Wyneb yn Wyneb. Cysylltwch â'r Clerc os ydych am ychwanegu eitemau eraill at yr agenda. Bydd y Cyng. Hughes yn anfon dolen at bawb cyn y cyfarfod.